

COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS LUN, 7^{FED} MEHEFIN 2021 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Maer, y Cynghorydd. M. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr N. Bastow, C. Brockley, Gemma Campbell, Mrs H. Fleet; D. Howcroft, C. Hughes, A. Khan, A. Mason, C. Matthews, R. Owen, J. Pearson, T. Pearson (Dirprwy Faer), S. Price, P Richards, S. Ryder, Mrs K. Swindon, M. Worth..

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref a Swyddog Cyllid Cyfrifol
Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

39/21 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

- (a) Croesawyd yr holl aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, D. Jones, Mrs H. Meredith ag M. Tasker.
- (b) Rhoddodd y Clerc diweddariad ar lafar ynglŷn â'r Cynghorydd Mrs H. Meredith a'i hanallu i ddod i gyfarfodydd yn ystod y cyfnod o'r gwaharddiadau pandemig a gofynnodd i'r Aelodau ystyried ymestyn ei chaniatâd am absenoldeb am gyfnod pellach o 6 mis.

Penderfynwyd cymeradwyo estyniad o absenoldeb i Gynghorydd Mrs H. Meredith am gyfnod pellach o 6 mis.

40/21 Cyhoeddiadau:

Nid oedd gan y Maer unrhyw gyhoeddiadau.

41/21 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim

42/21 Ymwelwyr a'r Cyngor

(a) Cyflwynodd y Clerc cais gan Mel Lawton a James Timber, Trafnidiaeth Cymru, i gael dod i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y gwelliannau arfaethedig i adfer y defnydd o ddau o'r adeiladau ar Orsaf Rheilffordd Bae Colwyn. Dangosodd y Clerc sleidiau o'r gwaith a wnaed ar Orsaf Abergele.

Penderfynwyd gwahodd Mel Lawton a James Timber i ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor yng Ngorffennaf.

(b) Gwahoddwyd y Cynghorwyr Sirol gan y Cadeirydd, i gyflwyno adroddiadau byr. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Mrs M. Jones gan y Cynghorydd A. Khan ar ei harwisgiad yn Faer a dywedodd wrth y Cyngor, mai Arweinydd newydd y Cyngor Sir yw'r Cynghorydd C. McCoubrey, yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd S. Rowlands am iddo gael ei ethol i Senedd Cymru.

43/21 Cofnodion:

- a) **Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion:**
- i) **Cyfarfod arferol diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 26^{ain} Ebrill 2021.**
 - ii) **Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 17^{eg} Mai 2021.**
 Fe nodwyd gan yr Aelodau bydd yr eitemau dros ben o Reol Sefydlog 4p, yn cynnwys penodi cynrychiolwyr i fudiadau allanol, yn ymddangos ar yr Agenda nesaf a gofynnwyd iddynt adael i'r Clerc wybod, erbyn diwedd Mehefin, os oeddynt yn dymuno gadael unrhyw swydd mae ganddynt ar hyn o bryd.
- b) **Penderfynwyd derbyn a nodi cofnodion y cyfarfodydd canlynol:**
- i. **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 4^{ydd} Mai a'r 25^{ain} Mai 2021.**
 - ii **Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 12^{fed} Mai 2021.**
 - iii **Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau a gynhaliwyd ar 24^{ain} Mai 2021.**
 - iv **Pwyllgor Gwobrwo Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 19^{eg} Mai 2021.**
 - v **Nodiadau o gyfarfod Tîm Cynllunio'r Gymuned a gynhaliwyd ar 24^{ain} Mai 2021.**
- b) **Y Tîm Ymateb i'r Argyfwng Pandemig (TYAP):** Fe nodwyd gan yr aelodau, nad oedd y TYAP wedi cyfarfod ers 22^{ain} Ebrill a gofynnodd y Clerc i'r Cyngor ystyried y cynnig i'w diddymu'n ffurfiol gan ei bod yn gyfreithiol nawr i gynnal cyfarfodydd o bellter os oes angen.
Penderfynwyd yn ffurfiol i ddiddymu'r Tîm Ymateb i'r Argyfwng Pandemig..

44/210 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny:

- a) **Cofnod 346/20(a) - Trwsio'r Cwteri a'r To:** Rhoddodd y Clerc diweddariad byr a gofynnodd i'r Cyngor cymeradwyo gwaith ychwanegol i drwsio / atgyweirio gwaith plwm ac ail-bwyntio'r simnai yn yr adeilad cefn am gost o £972 gydag ychwanegiad o £432. Fe nodwyd bod angen brys i drwsio'r gwaith plwm, oherwydd os na wnaed hyn mi fyddai dŵr yn parhau i ddod i mewn. Cytunodd y Cyngorwyr ei fod yn beth call i wneud yr holl waith tra bod y sgaffald dal yn ei le ac felly arbed costau ychwanegol yn ddiweddarach.
Penderfynwyd cymeradwyo'r gwaith ychwanegol a gofyn i'r Clerc rhoi awdurdod i'r contractwr i fynd ymlaen gyda'r gwaith.
- b) **Cofnodion 346/20(g) a 360/20(b) - Hysbysfyrddau Digidol:** Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Clerc a'r Cyngorwyr M. Worth am y prosiect ar y cyd gyda GWIL a DYCHMYGWCH. Fe fwriedir cael 3/4 o hysbysfyrddau digidol yn yr ardal sy'n cael ei gyllido mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Tref. Gofynnodd y Clerc i Bwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio (Ach) cael awdurdod dirprwyol i gyflwyno cais ar y cyd am gyllid o Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr ar gyfer unrhyw brinder yn y cyllid.
Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Pwyllgor Ach cyflwyno cais ar y cyd am gyllid.
- c) **Cofnod 374/20: Polisi Llogi Ystafelloedd:**

Penderfynwyd mabwysiadu'r polisi diwygiedig ar logi ystafelloedd yn Neuadd y Dref yn ddi-oed.

- ch) Cofnod 377/20(a) – Cyfraniadau i Gyngor Bwrdeistref Sir Conwy
Penderfynwyd cadarnhau talu'r cyfraniadau i Theatr Colwyn (£55,000), Oriel Colwyn (£10,000) a Gŵyl Ffilm GOGs (£5,000)
- d) Cofnod 378/20(a) - Offer i Alluogi Cyfarfodydd Hybrid:- Gofynnodd y Clerc am adborth gan yr Aelodau a fu'n bresennol yn y cyfarfod blynyddol hybrid yn rhithiol. Dywedodd yr Aelodau bod y sain yn dda ond roedd angen am gamera o well ansawdd ar gyfer ystafell mor fawr, a chafwyd anhawster i weld pobl. Roedd y Clerc wedi gofyn i GBS Conwy am gyngor am gamerâu a fyddai'n addas ar gyfer ystafell cynadledda ond nid oeddynt yn gallu helpu. Felly cynigodd y Clerc i geisio cyngor gan Cambrian Photography ynglyn a phrynu webcam / camera digidol addas a fyddai'n ateb y gofynion am gyfarfodydd hybrid yn yr hirdymor. Bydd y Clerc yn rhoi diweddariad i'r Cyngor pan fydd ganddi fwy o wybodaeth.
- dd) Cofnod 378/20(b) - Liff't Neuadd y Dref: Fe nodwyd gan yr Aelodau y cafwyd ail farn gan weinyddwr gofalu am lifftiau a phan dderbynnir pris, fe gyfeirir hwn at y Pwyllgor Polisi a Chyllid er mwyn cymeradwyo cyllid.
Penderfynwyd rhoi awdurdod i dalu'r ffi o £65 galw allan / gwasanaethu.
- e) Cofnod 380/20 - Grantiau Bychan:
Penderfynwyd cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor i roi grant bychan o £500 i Eglwys Sure Hope fel y dangosir yn Rhestr C y cofnodion.
- f) Cofnod 12/21(d) – Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau:
Penderfynwyd cymeradwyo newid y Cylch Gorchwyl i ganatau i'r Cynghorydd S. Ryder cael ei phenodi i'r Pwyllgor i gymryd lle'r Cynghorydd P. Richards sydd eisoes yn aelod o'r Pwyllgor fel cynrychiolydd o Bwyllgor Glyn yn ei Blodau / Ffederasiwn Amgylcheddol Bae Colwyn.
- ff) Cofnod 18/21 – Cynllun Gwaith Bioamrywiaeth:
Penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun drafft.
- g) Tîm Cynllun Cymunedol:
Penderfynwyd cymeradwyo dyraniad o hyd at £5,000 o gronfa'r Cynllun Cymunedol ar gyfer gwaith goramser clerigol i gefnogi'r Tîm Cynllun Cymunedol dros y ddwy flynedd nesaf, gyda Chlerc y Dref yn rheolwr llinell.
- h) *Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y cofnodion.*

45/21 Llywodraeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol i gael ei ystyried:

(a) Deddf Llywodraeth Leol ag Etholiadau (Cymru) - canllawiau dros dro ynglŷn ag Adran 47 a dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb
Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.

46/21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiadau / gohebiaeth ganlynol i gael eu hystyried:

a) Cyfarfod Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae: Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am y cyfarfod y bu ynnddi gyda'r Cynghorydd C. Hughes ar 27^{ain} Ebrill 2021. Roedd y cyfarfod yn bennaf yn ymwneud â chynllun gwella canol y dref a'r adborth gan randeiliaid. Fe nodwyd y pryder a fynegwyd y byddai'r cynlluniau newydd yn groes i flaenoriaethau teithio gweithredol trwy agor Ffordd yr Orsaf i draffig, darparu maes parcio newydd a symud y lonydd beicio.

Mynegwyd pryder bod nifer o aelodau wedi cysylltu â ChBS Conwy yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ddatgan gwahanol safbwyntiau i benderfyniad y Cyngor Tref i wrthwynebu ailagor Ffordd yr Orsaf i draffig a'i gadw'n fan dirgrydol sy'n hwylus i gerddwyr ac adloniant / hamdden.

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd, trwy bleidlais gyda 10 o blaid a 6 yn erbyn, i ysgrifennu at Jane Richardson, CBS Conwy, i ail-gadarnhau sefyllfa'r Cyngor Tref a'i gwrthwynebiad i ailagor Ffordd yr Orsaf.

Yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, gofynnwyd am gofnod o'r bleidlais cyn i'r bleidlais ddigwydd,. Roedd y pleidleisio fel a ganlyn:

O blaid y cynnig: C Brockley; G Campbell; H Fleet; C Hughes; C Matthews; J Pearson; S Price; S Ryder; K Swindon; M Worth

Yn erbyn y cynnig: N Bastow; D Howcroft; A Khan; Mrs M Jones; R Owen; T Pearson.

Roedd A Mason yn absennol o'r cyfarfod am gyfnod byr.

- Ymunodd y Cynghorydd P. Richards yn y cyfarfod yn y pwynt yma

b) Strategaeth drafft Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy (yn cynnwys cynigion ar gyfer Llyfrgell Bae Colwyn): Cyflwynwyd y strategaeth drafft gan y Clerc, i gael ei ystyried, ac fe nodwyd bod y cynigion a holiadur ar agor nawr i'r cyhoedd cael ymateb. Roedd y Cynghorwyr o'r farn nad oedd digon o fanylion yn y cynlluniau ac nad oedd unrhyw wybodaeth am ddyfodol adeilad presennol Llyfrgell Bae Colwyn os oedd y gwasanaeth llyfrgell yn symud i adeilad y Cyngor yng Nghoed Pella. Codwyd pryderon hefyd nad oedd y safle arfaethedig yn gyfeillgar i deuluoedd ac nad oedd mor hygyrch ag yw'r safle presennol. Mae'r adeilad ei hun o werth hanesyddol oherwydd talwyd amdano trwy gyfraniadau / tanysgrifiad cyhoeddus ac felly mae'n bwysig iawn yng ngolwg yr holl drigolion sy'n gwrthwynebu symud y llyfrgell.

Penderfynwyd bod copiâu o'r cynigion / holiadur yn cael eu hargraffu i gael eu dosbarthu gan y Cynghorwyr.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Cyngor yn ysgrifennu i ddatgan ei gwrthwynebiad ffurfiol i symud y llyfrgell oherwydd cryfder y farn gyhoeddus

- c) Fe nodwyd gan yr Aelodau, ymateb Ellen Edwards ynglŷn â Chronfa Adnewyddu Covid y DU ac fe nodwyd hefyd bydd hwn yn ymddangos ar agenda cyfarfod nesaf Grŵp Clercod Tref Conwy. Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y man.

47/21 Cyfrifon Diwedd y Flwyddyn ag Archwiliad:

- (a) Derbyniodd yr Aelodau copi o Ddatganiad Drafft y Cyfrifon ar gyfer 2020/21, yn ogystal â nodiadau cefnogol.
- (b) Fe nodwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol gan yr Aelodau a'r ddau argymhelliad oedd angen rhoi sylw iddynt ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31^{ain} Mawrth 2021. Fe nodwyd bydd y rhain yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor Polisi a Chyllid a'r Is-Bwyllgor Archwilio i gael eu gweithredu
- (c) ***Penderfynwyd cymeradwyo'r datganiadau cyfrifon a'r Datganiad Blynyddol ar Reolaeth yn y Canlyniad Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31^{ain} Mawrth 2021, yn barod i gael ei gyflwyno i'r Archwilydd Allanol.***

48/21 Archwilio Cymru:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y digwyddiad Cyfnewid Ymarferiad Da ar-lein, 'Eich Tref, Eich Dyfodol' a fynychwyd ganddi ar 20^{fed} Mai. Fe rannwyd achos astudiaeth ar y defnydd o ddulliau digidol i adfywio Canol Trefi, yn cynnwys App ddigidol i helpu i werthuso cyfrif y nifer o ymwelwyr, y tywydd a digwyddiadau ayb. Mae cwmni lleol M-Spark yn ymwneud â phrosiect Llywodraeth Cymru i hybu trefi digidol ac mae gan GBS Conwy rhyw gyswllt / diddordeb yn brosiect yma.

Penderfynwyd cysylltu â ChBS Conwy i ofyn sut gallai'r Cyngor Tref cyfrannu / bod yn rhan o wneud Bae Colwyn yn dref ddigidol ac i wahodd cynrychiolwyr priodol i roi cyflwyniad i'r Cyngor yn y dyfodol.

49/21 Cynllun Gwaith y Cynllun Corfforaethol:

Cyflwynodd y Clerc y Cynllun Gwaith Drafft ar gyfer 2021/22 a gofynnodd i'r Aelodau os oedd ganddynt unrhyw newidiadau / ychwanegiadau iddo.

Penderfynwyd ychwanegu 'i annog CBS Conwy i agor y cyfleustra cyhoeddus i'r gymuned ehangach, lle mae hyn yn bosibl' yn eitem 4.1 o'r Cynllun Gwaith drafft.

50/21 Gohebiaeth:

Cyflwynodd y Clerc llythyr diweddariad oddi wrth Norbert MBU-MPUTU am ei ymdrechion i gryfhau'r cysylltiadau rhwng Kinshasa, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo gyda Chymru ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau

51/21 Etholiad Ward Rhiw:

Cyflwynodd y Clerc rhybudd o amserlen yr etholiad yn Ward Rhiw a cheisiodd barn yr Aelodau os oedd angen cardiau pleidleisio os cynhelir etholiad am gost o £1,975 (argraffu a chostau post 2^{il} dosbarth)

Penderfynwyd cael cardiau pleidleisio os bydd etholiad yn Ward Rhiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pmCadeirydd